

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Arbennig o bell a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N. Wood

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, C. Franks, W. Gilligan, G. John a Dr. I.J. Johnson.

627 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

628 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y M. Evans (Aelod Lleyg).

629 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

630 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

631 ARCHWILIAD O DDATGANIAD ARIANNOL 2021/22 – ADRODD I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU (PW) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifeg yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd cyflwyno adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r rhai a oedd yn gyfrifol am lywodraethu yn dilyn archwilio Datganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22. Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Pwyllgor Mr. S. Wyndham o Archwilio Cymru.

Cynhaliwyd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 yn ystod y camau cwblhau terfynol. Roedd Datganiad Cyfrifon diweddaraf 2021/22 yn cynnwys yr holl ddiwygiadau y cytunwyd arnynt ac fe'i cyflwynwyd bellach i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

O ganlyniad i effaith pandemig Covid-19, roedd y dyddiad cau ar gyfer archwilio wedi newid o 31 Gorffennaf i 30 Tachwedd 2022. Cafodd ei ohirio ymhellach oherwydd yr angen i ddiwygio'r Cod ac i gyflwyno rheoliadau statudol i ganiatáu newidiadau i'r ffordd y cafodd Asedau Seilwaith eu datgelu yn y Datganiad Cyfrifon.

Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i ddiweddarau yn Atodiad A, ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Llythyr Cynrychiolaeth terfynol yn Atodiad B, wedi'u dosbarthu cyn cyfarfod y Pwyllgor.

Canfyddiadau dros dro Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Penodedig ynghylch archwilio'r Datganiadau Ariannol oedd:

- Mae Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni.

Roedd rhai camddywediadau yn y cyfrifon oedd bellach wedi'u cywiro gan reolwyr. Cafodd y camddywediadau wedi'u cywiro eu crynhoi isod, a'u cynnwys er gwybodaeth yn Atodiad 3 adroddiad ISA260 Archwilio Cymru a ddangoswyd yn Atodiad B:

- Gor-ddweud y ffigwr Dyledwyr yn y nodyn Offerynnau Ariannol.
- Asedau Cerbydau gyda dim gwerth ased net nad oeddent wedi'u dileu o gyfrifon y Cyngor ac felly cafodd y swm cario Gros a'r Dibrisiant Cronedig eu gor-ddweud gan £483k.
- Cywiriadau i'r dosbarthiadau yn y nodyn Dyledwyr.
- Rhai newidiadau naratif i'r nodyn Taliadau Cydnabyddiaeth Uwch Swyddogion.
- Diwygiad i'r Cyfrifyddu ar gyfer trafodiad Trafnidiaeth Cymru a oedd yn gofyn am ostyngiad yng ngwerth Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig, gwaredu'r ased a gedwir i'w werthu a chyfrifyddu ar gyfer swm gweddilliol fel Grant Cyfalaf a Dderbynnir Ymlaen Llaw. Effeithiodd y diwygiad hwn ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y Gronfa Wrth Gefn Annefnyddiadwy ac felly gellid gweld y diwygiadau ar draws nifer o'r Datganiadau a'r nodiadau datgelu yn y cyfrifon.
- Diwygiadau naratif a chyflwyno eraill gan gynnwys newidiadau i'r Ffi Archwilio, datgeliadau'r Cydbwyllgor a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nododd y Pwyllgor hefyd rai mân ddiwygiadau oedd angen eu gwneud yn Atodiad A sef:

- Gwall teipograffig yn y paragraff seilwaith;
- Datgeliad agor Cronfeydd Wrth Gefn Eraill mewn cronfeydd wrth gefn clustnodedig;
- Costau Archwilio, Nodyn 30 (gwahaniaeth i'r flwyddyn flaenorol); a

- Diweddariadau i'r cyfeiriadau nodiadau.

Cynigiwyd y dylid cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon a archwiliwyd i'r Cyngor ar 30 Ionawr 2023 i'w gymeradwyo ac y dylai wedyn gael ei lofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper am bolisi'r Cyngor o ran lefel ei gronfeydd wrth gefn ariannol oedd wedi bod yn cronni dros amser. Wrth ateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod polisi'r Cyngor wedi'i nodi yn yr adroddiad ar y Gyllideb a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 19 Ionawr 2023. Nododd yr adroddiad y byddai cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn agosach â risgiau'r Cyngor. Roedd hynny'n cynnwys arian ychwanegol o gronfeydd wrth gefn ar gyfer pwysau fel digartrefedd, costau ynni a dyfarniadau cyflog staff. Yn ogystal, roedd cyfran sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer cynlluniau prosiect cyfalaf. Cytunwyd hefyd i wella amlder yr adroddiadau oedd yn ymwneud â defnyddio cronfeydd wrth gefn a'u lefelau i'r Cabinet ac i'r Pwyllgorau Craffu. Dywedodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman, y gallai fod angen darparu hyfforddiant i aelodau ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a pholisi'r Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Protheroe beth oedd y gwerthoedd derbyniol ar gyfer camddywediadau heb eu cywiro. Wrth ateb, dywedodd Mr S. Wyndham (Archwilio Cymru) fod fformiwlâu yn cael eu defnyddio i gyfrifo materoldeb, oedd oddeutu £200k ar gyfer camddywediadau heb eu cywiro. Roedd manylion lefelau materoldeb wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Gofynnodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg) am y dysgu o rai o'r cywiriadau, gan nodi'r £483k ar gyfer asedau cerbydau fel enghraifft. Wrth ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor, ar gyfer asedau cerbydau, wedi bod yn cysoni ychwanegiadau a gwarediadau ers nifer o flynyddoedd ond heb gysoni cydbwysedd cyffredinol y fflyd. Roedd y Cyngor wedi bod yn gwneud llawer o waith o ran asedau seilwaith ac offer y Cyngor, ond nid oedd yr un darn o waith hwnnw wedi'i wneud ar gyfer cerbydau.

Wedi hynny, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

PENDERFYNWYD –

(1) Bod adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn cael ei gymeradwyo ac argymhell y datganiadau ariannol gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol i'w lofnodi gan y rhai a awdurdodwyd.

(2) Cytundeb ar y mân newidiadau iAtodiad A. Y rhai yw:

- Gwall teipograffyddol yn y paragraff seilwaith;
- Agor Cronfeydd Wrth Gefn Eraill mewn datgeliad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd;
- Nodyn 30 Costau archwilio (gwahaniaeth blwyddyn flaenorol);
- Diweddariadau i'r cyfeiriadau nodiadau.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1&2) Ar ôl ystyried canlyniadau'r archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22.

632 CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2022-23 (PGAMR) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio a gynhwyswyd ac a gymeradwywyd yn y Cynllun ar Sail Risg Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23.

Manylwyd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun ar Sail Risg Archwilio Mewnol cymeradwy ar gyfer 2022-23 yn Atodiad A yr adroddiad. Dangosodd fod 18 o adolygiadau wedi'u cwblhau, 14 gyda barn archwilio tra bod 6 adroddiad wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft. Roedd 19 adolygiad yn parhau.

Yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol y 14 archwiliad a gwblhawyd, rhoddyd barn archwilio o sicrwydd sylweddol i 3 archwiliad, barn o sicrwydd rhesymol i 9 archwiliad a barn gyfyngedig i'r 2 archwiliad oedd yn weddill.

Hyd yn hyn roedd 48 o argymhellion wedi'u gwneud i wella'r amgylchedd rheoli. Roedd y cynnydd oedd yn cael ei wneud wrth weithredu'r rheiny yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan yr Archwilwyr a'i adrodd i'r Pwyllgor.

Er ei bod yn dda bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMRh) wedi llwyddo i recriwtio staff Archwilio newydd yn ystod 2022-2023, roedd y staff newydd yn effeithio ar yr adnodd presennol oedd ar gael i gyflwyno'r Cynllun Archwilio Mewnol oherwydd y cymorth a'r hyfforddiant yr oedd eu hangen arnynt. I gynorthwyo gyda hyn roedd rhai archwiliadau wedi'u dyrannu i Wasanaethau Archwilio Mewnol SWAP i'w cwblhau ar ran y GAMRh.

Er bod perfformiad hyd yma yn is na'r disgwyl ar gyfer 2022/23, y teimlad oedd y byddai digon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon i alluogi'r Pennaeth Archwilio i roi barn ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli mewnol, llywodraethu a rheoli risg.

Yn dilyn pwynt o eglurhad, cytunwyd y byddai'r canllawiau sy'n ymwneud â rhoi barn archwilio yn cael eu rhannu ag aelodau'r Pwyllgor.

O ran lefel yr adnoddau i gwblhau'r Cynllun Archwilio, dywedodd Dirprwy Bennaeth y GAMRh fod 2022/23 wedi bod yn flwyddyn heriol o ran hyfforddi aelodau newydd o staff ond wrth symud ymlaen, byddai'r Tîm mewn sefyllfa gryfach. Roedd Cynllun 2023/24 yn cael ei lunio ar hyn o bryd, ac mae'n bosib y byddai rhai adolygiadau archwilio y byddai angen eu cynnal o eleni fyddai'n cael eu hystyried ar sail risg. Yn ogystal, efallai na fydd angen rhai adolygiadau oherwydd gallai fod gorgyffwrdd â rhywfaint o waith archwilio a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor. Yn ogystal, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth ei fod yn teimlo erbyn y flwyddyn nesaf y byddai'r Tîm yn y sefyllfa gryfaf y mae wedi bod ynddi ers sawl blwyddyn oherwydd

nifer y swyddi gwag oedd wedi'u llenwi a nifer y staff oedd yn cael eu hyfforddi ac yn dod yn fwy profiadol. Roedd dwy swydd wag o hyd. Roedd y broses recriwtio ar eu cyfer wedi'i hoedi oherwydd y broses o gwblhau cyllideb y Cyngor.

O ran cymharu â sefyllfa'r awdurdodau lleol partner eraill, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth eu bod, o ran gwaith adolygu archwilio, i gyd yn debyg iawn, gyda nifer fach o farn gyfyngedig ond barn resymol gan amlaf.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, dywedodd y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2022-23.

Rhesymau dros benderfyniadau

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

633 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU (PGAMR) -

Rhoddodd yr adroddiad Flaenraglen Waith wedi'i Diweddaru i'r Aelodau ar gyfer 2022/23.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau ei fod wedi ystyried pob agwedd ar ei swyddogaethau craidd yn briodol, roedd y Flaenraglen Waith wedi'i hatodi i'r adroddiad yn Atodiad A wedi'i chynhyrchu ac yn cyd-fynd â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Roedd y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru i adlewyrchu newidiadau oedd eu hangen i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau newydd ac yn cynnwys eitemau y gofynnwyd amdanynt yn flaenorol gan Aelodau'r Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r Flaenraglen Waith a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Gofynnodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg), gan nodi y byddai'r adroddiad Monitro Argymhellion yn cael ei gyflwyno bob chwarter, i'r Pwyllgor gael diweddariad pe bai unrhyw bryderon neu unrhyw beth arwyddocaol oedd angen eu hadrodd.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.
- (2) Cymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 27 Chwefror 2023.

(3) O ran gwaith adolygu archwilio, y dylid hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o unrhyw bryderon neu unrhyw beth arwyddocaol a allai fod gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol ac yn cael gwybod am gynnydd y rhaglen waith arfaethedig.

(3) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw beth o bwys neu bryder.